

Dynodiadau ysgolion yn ôl eu darpariaeth o'r Gymraeg

Y sefyllfa gyfredol

Derbyniwyd adroddiad terfynol yr ymchwil ar ddynodiadau ysgolion gan gwmni LinguaNi ddiwedd mis Rhagfyr ac mae cynigion ar gyfer trefn newydd wedi eu cyflwyno. Mae'r cynigion wedi eu gwneud ar sail trafodaethau bwrdd arbenigol a gwaith dadansoddi data manwl a wnaethpwyd gan yr Athro Colin Baker.

Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt rhwng swyddogion Is-Adran y Gymraeg ac adrannau Cyfreithiol, Trefniadaeth a Mynediad Ysgolion, Cwricwlwm, Gwybodaeth a Gwella Ysgolion er mwyn gyrru'r gwaith yn ei flaen a sicrhau bod pob elfen yn plethu a chefnogi eu gilydd yn effeithiol.

Dynodiadau presennol

O dan y drefn bresennol mae 5 categori ieithyddol yn y cynradd;

1. Cyfrwng Cymraeg [CC]
2. Dwy ffrwd [DF]
3. Trosiannol [TR]
4. Saesneg (gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg) [SC]
5. Cyfrwng Saesneg [CS]

O fewn yr uwchradd mae 4 prif gategori gyda 4 is-gategori pellach i gategori 2 dwyieithog.

1. Cyfrwng Cymraeg [CC]
2. Dwyieithog (wedi'i rannu'n 4 is-gategori)
 - A Dwyieithog [AB]
 - B dwyieithog [BB]
 - C dwyieithog [CB]
 - Ch dwyieithog [CH]
3. Saesneg (gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg) [SC]
4. Cyfrwng Saesneg [CS]

Mae'n werth pwysleisio fod y categorïau cynradd ac uwchradd uchod yn anstatudol. Cânt eu defnyddio at bwrpasau casglu a dadansoddi data yn bennaf (hy trwy PLASC), ond hefyd gan ysgolion ac awdurdodau lleol i ddisgrifio natur ieithyddol yr ysgol/ion yn eu prosiectws ysgol/ sirol neu ar eu gwefan. Mae'n ofynnol i ysgolion unigol ac awdurdodau lleol rannu gwybodaeth gyda rhieni am natur ieithyddol ysgolion dan reoliadau gwybodaeth ysgolion 2011.

Sut / ble caiff y diffiniadau hyn eu defnyddio?

- Ymgynghoriadau awdurdodau lleol ynghylch cynigion ysgolion newydd neu gynigion i newid dynodiad ieithyddol ysgol – gofynion Deddf 2013; gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018)
- Hunain ddadansoddiadau CYBLD (gan ysgolion)
- Mewn prosiectws ysgolion unigol – gofynion Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011
- Prosiectws cyfansawdd awdurdodau lleol– sy'n seiliedig ar mewnbynnau PLASC ysgolion – gofynion Rheoliadau Gwybodaeth ysgolion (Cymru 2011)
- Mewn CSGA awdurdodau lleol fel rhan o'u dyletswydd statudol i gynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg yn yr ardal)

Heriau y drefn bresennol

- Ni chaiff y dynodiadau presennol eu defnyddio yn gyson a chywir
- Maent yn cael eu camddehongli ac yn creu dryswch ymysg rhieni
- Nid oes modd monitro i sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu'r meini prawf presennol
- Nid yw'r drefn bresennol yn cefnogi'r ymrwymadau a wneir yn y CSGA
- Mae'r broses statudol o gynyddu'r ddarpariaeth yn feichus

Y cynigion

- Trefnu ysgolion Cymru (cynradd ac uwchradd) o fewn **tri categori** sy'n nodweddu darpariaeth Gymraeg yr ysgolion a'u huchelgais o ran dwyieithrwydd y disgyblion.
- Defnyddio **rhifau fel penawdau ar gyfer y categorïau hyn**, sef Categori 1, 2 a 3, gan sicrhau fod paragraff esboniadol yn cyd-fynd â'r dull hwn o adnabod y gwahanol fathau o ysgolion
- Yn y cynradd, **categori'o'r ddarpariaeth ieithyddol a gynigir** ac nid yr ysgol fel sefydliad cyfannol, felly gallai ysgol gynradd fod yn ysgol Categori 1 a 2 neu 2 a 3 yn ôl y ddarpariaeth a gynigir.
- Yn y sector uwchradd, argymhellir mai *ysgolion fel sefydliadau cyfan* sy'n cael eu categoreiddio
- Cyflwyno **is-gategoriâu 'trosiannol'** rhwng categori 1-2 a 2-3
- Bod Cynlluniau i aildrefnu ysgolion (sy'n ymwneud a dynodiadau ieithyddol ysgolion) yn **adlewyrchu ymrwymadau o fewn CSCA** awdurdodau lleol ac yn cael eu monitro drwy'r broses honno
- Bod yr **awdurdod lleol**, mewn partneriaeth ag ysgolion ei ardal, **yn arwain ar y broses** o bennu categori pob ysgol wrth gyflwyno'r drefn newydd o ddynodi.

Mae esboniad llawn o'r cynigion a'r ddarpariaeth o fewn bob cynnig yn Atodiad 1.

Trafodaethau cyn ymgynghori

Cynhaliwyd dau sesiwn ymgysylltu anffurfiol ar 3 a 7 Chwefror yng Nghyffordd Llandudno a Chaerfyrddin er mwyn trafod y cynigion posib gyda rhan-ddeiliaid perthnasol. Cafwyd cynrychiolaeth o 19 o'r 22 Awdurdod Lleol ac fe gyflwynwyd y cynigion posib i fynychwyr. Bu ymateb cadarnhaol i fwriadau'r Llywodraeth.

Wedi dweud hynny, gwnaeth ddwy drafodaeth wedi esgor ar faterion technegol sydd angen i swyddogion, gyda chefnogaeth cydweithwyr gwasanaethau cyfreithiol, fynd i'r afael â nhw ymlaen llaw i'r broses ymgynghori ffurfiol.

Y prif faterion a godwyd

- Pryderon ynghylch cyllido'r gwaith hwn a'r goblygiadau o safbwynt gweithlu
- Roedd cwestiynau ynghylch pwy sydd yn gyfrifol am ddynodi'r ysgol yn y lle cyntaf – yr Awdurdod Lleol neu'r ysgol a chwestiynau o gwmpas proses apêl i ysgolion
- Roedd cwestiynau ynghylch pryd fydd y drefn newydd yn dod i rym a beth fyddai'r broses o drosglwyddo o un drefn i'r llall
- Mynegwyd pryder bod dynodiad 2 (uwchradd yn benodol) yn parhau yn amwys ac y byddai darpariaeth rhai ysgolion yn parhau i fod yn aneglur.

Camau nesaf

Bwriedir lansio ymgynghoriad 12 wythnos ffurfiol ym mis Ebrill, gan ymgynghori ar y ddogfen canllawiau ar gyfer dynodi ysgolion yn ôl eu darpariaeth o'r Gymraeg. Mae'r canllawiau yn cael ei diwygio ar hyn o bryd.